Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Cynllun Ariannol

2021-24

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Llywodraethu a Chraffu	3
Ffocws fy ngwaith yn ystod 2020-21	4
Atodiad A Amcangyfrif Blynyddol 2021-2024	10
Atodiad B Cronfeydd	15

Cyflwyniad

Fel Comisiynydd, fi yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac felly mae gofyn i mi gyflwyno cyllideb flynyddol (yr Amcangyfrif) i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 9(2), Atodlen 1 o Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 (y Ddeddf). Mae'r Amcangyfrif yn cynnwys amcangyfrif o'r gwariant ar sail adnoddau a'r cyllid arian parod net y bydd ei angen gan Lywodraeth Cymru er mwyn i mi gyflawni fy swyddogaethau statudol.

Mae'r Amcangyfrif ar gyfer 2021-22 wedi cael ei ddatgelu ar sail arian ac adnoddau yn Atodiad A ac mae'n cymryd yn ganiataol y byddaf fi, fel Comisiynydd yn derbyn £1,589,000 ar sail adnoddau unwaith eto yn 2021-22. Rydw i hefyd wedi darparu gofyniad arian ac adnoddau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod er mwyn hwyluso proses gynllunio ariannol Llywodraeth Cymru.

Llywodraethu a Chraffu

Wrth gyflawni fy swyddogaethau statudol rwyf fi, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol i reoli adnoddau, gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risgiau a chyfleoedd.

Fel Corfforaeth Unigol a Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn dal cyfrifoldeb personol dros gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad ond gallaf ddirprwyo er mwyn i unrhyw aelod o staff weithredu fy swyddogaethau. Gan nad oes gennyf Fwrdd Corfforaethol, fel y byddai gan gyrff cyhoeddus eraill, mae gennyf Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i'm cefnogi yn fy rôl Lywodraethu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn fy helpu, fel Swyddog Cyfrifyddu, i fonitro ac adolygu'r trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu corfforaethol a rheoli risg a systemau rheoli mewnol. Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg bum aelod ac mae'n cyfarfod yn ffurfiol bob chwarter gyda mi, fy Nhîm Rheoli Busnes, ac archwilwyr mewnol ac allanol. Oherwydd y risg ychwanegol yn ystod y pandemig Covid-19, rydw i, ynghyd ag aelodau eraill fy Nhîm Rheoli Busnes yn cyfarfod â fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn anffurfiol bob chwarter i ni allu canolbwyntio ar y meysydd strategol penodol sydd â lefel uchel o risg.

Bob blwyddyn, mae gofyn i mi gyflwyno Adroddiad Blynyddol am fy ngweithgareddau i Weinidogion Cymru. Mae Archwilio Cymru a Phwyllgorau Senedd Cymru yn craffu ar fy ngwaith hefyd, ac mae'n cael ei drafod yng nghyfarfodydd llawn y Senedd. Hefyd, mae Archwilio Cymru yn archwilio'r Cyfrifon Blynyddol. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi barn ddiamod am bob cyfnod cyfrifo ers sefydlu'r swydd yn 2008-09 tan 2019-20 ac ni chodwyd dim pryderon sylweddol yn y Llythyrau Rheoli Blynyddol.

Nid yw'r archwilwyr mewnol erioed wedi codi pryderon o bwys, ac eir ati i weithredu ar unrhyw argymhellion.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn adolygu'r broses archwilio allanol a mewnol bob blwyddyn ac yn fodlon ar berfformiad y naill a'r llall.

Ffocws fy ngwaith yn ystod 2020-21

Wrth i Gymru fynd i'r cyfnod clo, roedd yn anorfod bod ffocws fy ngwaith wedi newid yn sylweddol. Fe gafodd llawer o'r gwaith oedd wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2020 ymlaen ei ohirio fel bod modd i mi ganolbwyntio ar ddiogelu hawliau pobl hyn a sicrhau eu bod nhw'n gallu cael mynediad at gymorth a chefnogaeth.

Mae crynodeb o'r camau rydw i wedi'u cymryd i ymateb i'r problemau a'r heriau a gafodd eu creu gan y pandemig ar gael isod:

Dysgu'r Gwersi a pharatoi ar gyfer y cyfnod nesaf

Rydw i'n gweithio i sicrhau bod anghenion pobl hŷn, a'u profiadau yn ystod pandemig Covid-19, yn siapio'r penderfyniadau a wneir a'r camau a gymerir yng Nghymru.

Ym mis Awst, cyhoeddais 'Gadael Neb ar Ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hyn', sy'n nodi'r camau sydd angen eu cymryd ar draws nifer o feysydd allweddol i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, nad ydyn nhw'n cael eu heithrio o gymdeithas a'u bod nhw'n gallu parhau i wneud cyfraniad sylweddol i'n cymunedau a'r economi.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar brofiadau pobl hŷn, gan gynnwys y rheini rydw i wedi siarad â nhw'n uniongyrchol, ac mae hefyd yn defnyddio tystiolaeth ehangach i archwilio i effaith Covid-19 ar bobl hŷn ac i benderfynu pan newidiadau a gwelliannau sydd eu hangen.

Diogelu hawliau pobl hŷn

Yn gynharach eleni codais bryderon nad yw hawliau pobl hŷn wedi bod yn cael eu diogelu'n ddigonol yn ystod y pandemig Covid-19. Rydw i'n gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i graffu ar y penderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn nodi gwelliannau y gellir eu gwneud er mwyn sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu.

Codais nifer o bryderon yn ymwneud â hawliau pobl hŷn, ac effaith oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran ar bobl hŷn, pan roddais i dystiolaeth i Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru ym mis Mehefin 2020, a chroesawais yn fawr eu galwadau i weithredu i adfer, diogelu a hyrwyddo hawliau pobl hŷn yn ystod y pandemig.

Byddaf yn parhau i weithio gyda'r rhwydwaith o arweinwyr y prif sefydliadau sy'n helpu pobl hŷn ar draws y DU, gan gynnwys Comisiynydd Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon, Age Uk, Independent Age, Age Cymru, Age Scotland, Age NI a Scottish Care. Mae'r rhwydwaith yn craffu ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn ymateb i Covid-19 gan lywodraethau a chyrff cyhoeddus ar draws y DU i sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu diogelu a byddaf yn codi unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw gyda llais cryf ac unedig. Roedd y rhwydwaith yn ddylanwadol yn tynnu sylw at a sicrhau gweithredu ynglŷn â phenderfyniadau cyffredinol ynglŷn â hysbysiadau Na Cheisir CPR.

Diogelu a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru

O ddechrau'r pandemig, galwais ar Lywodraeth Cymru i gymryd mwy o gamau i ddiogelu a chefnogi pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Tynnodd sylw'n arbennig at yr angen i brofion fod ar gael i breswylwyr a staff ym mhob cartref gofal, rhywbeth a oedd yn cael ei atal i ddechrau gan bolisi profi'r llywodraeth.

Galwais am gynllun gweithredu cyhoeddedig ar gyfer cartrefi gofal – yn ymdrin â materion allweddol gan gynnwys mynediad at brofion, cyflenwi cyfarpar diogelu personol, rhyddhau cleifion o'r ysbyty a sicrwydd ariannol – er mwyn rhoi sicrwydd i bobl hŷn, eu teuluoedd a gweithwyr cartrefi gofal y byddai'r camau priodol yn cael eu cymryd, ar yr adeg iawn, i'w diogelu a'u cefnogi.

Ym mis Mehefin, cyhoeddais fy adroddiad, 'Lleisiau Cartrefi Gofal', hefyd, gan fy mod yn bryderus nad oedd lleisiau pobl hŷn, eu teuluoedd a'u ffrindiau a'r rheini sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn cael eu clywed yn ddigonol.

Mae'r adroddiad yn rhoi llais i bobl sy'n byw ac yn gweithio mewn cartrefi gofal ac mae'n rhoi cipolwg ar eu profiadau yn ystod y pandemig. Mae ei ganfyddiadau'n seiliedig ar dros 120 o ymatebion i gyfres o gwestiynau am brofiadau pobl mewn cartrefi gofal yn ystod y cyfnod clo, y problemau a'r heriau maent wedi'u hwynebu a'r newidiadau a'r gwelliannau yr hoffent eu gweld.

Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o alwadau i weithredu – ar sail yr hyn y mae pobl hŷn, eu teuluoedd a'u ffrindiau, a staff cartrefi gofal wedi'i rannu – sy'n nodi'r hyn y mae angen ei wneud, ar unwaith ac yn y tymor hwy, i sicrhau bod pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael yr ansawdd bywyd gorau posibl.

Sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gwasanaethau iechyd a gofal

Rydw i wedi bod yn gweithio i ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau ehangach yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol, trwy ymgysylltu â, a chraffu ar, Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus allweddol eraill, ac fel aelod o sawl grŵp cynghori a rhwydwaith allweddol, fel y Grŵp Cynghori ar Faterion Moesol a Moesegol COVID-19, a gyhoeddodd y fframwaith gwerthoedd ac egwyddorion moesegol ar gyfer darparu gofal iechyd.

Rydw i hefyd yn gweithio i sicrhau bod y darpariaethau yn Neddf y Coronafeirws 2020 – sy'n diddymu'r dyletswyddau i awdurdodau lleol asesu a darparu gwasanaeth gofal cymdeithasol i'r rheini sy'n gymwys, fel y nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – yn cael eu diddymu cyn gynted â phosib i sicrhau bod hawliau pobl hŷn o dan ddeddfwriaeth 2014 yn cael eu hadfer yn llawn.

Helpu pobl hŷn sy'n dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef, camdriniaeth

Sefydlais Grŵp Gweithredu o dros 30 o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth a throsedd.

Mae'r grŵp wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o'r pethau y gall pobl hŷn eu gwneud i gadw eu hunain yn ddiogel ac wedi'u hamddiffyn, a'r rôl y gallwn

ni i gyd ei chwarae i amddiffyn pobl hŷn. Ochr yn ochr â hyn, mae'r grŵp wedi bod yn hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael a all helpu pobl hŷn, yn ogystal ag annog pobl i roi gwybod am unrhyw bryder sydd ganddynt am ddiogelwch neu lesiant unigolyn hŷn.

I gefnogi hyn, mae'r grŵp wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth sy'n darparu gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol am sut gall pobl hŷn gadw'n ddiogel ac amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth, sgamiau a throseddau. Mae'r grŵp hefyd wedi cyhoeddi sawl datganiad cyhoeddus i'r cyfryngau yn ymwneud â nodi cam-drin a rhoi gwybod am bryderon, troseddu a thwyll sydd wedi codi yn ystod y pandemig.

Mae aelodau'r grŵp gweithredu hefyd wedi ffurfio Grŵp Llywio er mwyn sicrhau dull strategol o fynd i'r afael â materion sydd wedi codi o ganlyniad i'r pandemig a nifer o faterion hirsefydlog yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn. Maent wedi datblygu strategaeth a fydd yn cael ei datblygu gan y Grŵp Gweithredu, sy'n cynnwys:

- Mapio'r gwasanaethau a'r gefnogaeth ehangach sydd ar gael i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, gan nodi bylchau ac arferion da, a defnyddio hyn fel sail ar gyfer rhoi'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar waith.
- Sicrhau bod data a thystiolaeth am gam-drin yn cynnwys pobl hŷn, a bod hynny'n cynnwys dileu'r terfyn oedran o 74 ar ddata troseddu Cymru a Lloegr.
- Galluogi a grymuso pobl hŷn i deimlo'n hyderus i rannu eu profiadau o gam-drin gan annog eraill i ddweud eu dweud.

Rydw i wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio gwaith y grŵp gweithredu i ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu Cymru gyfan i atal cam-drin pobl hŷn a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i helpu i'w roi ar waith.

Rhoi help a chefnogaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd.

Law yn llaw â'r cymorth uniongyrchol rydw i'n ei roi i unigolion a'u teuluoedd drwy fy ngwasanaeth gwaith achos, rydw i wedi datblygu hwb gwybodaeth am y coronafeirws ac adran 'holi ac ateb' hygyrch ar fy ngwefan i roi'r wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf i bobl hŷn a'u teuluoedd, yn ogystal â manylion am wasanaethau a chymorth lleol. Ers ei lansio ym mis Mawrth, mae dros 3,600 o unigolion wedi ymweld â'r hwb a'r adran holi cwestiynau cyffredin. Bydd hwn yn parhau i gael ei ddiweddaru wrth i wybodaeth a chanllawiau newydd gael eu cyhoeddi.

Defnyddiais fy sianeli cyfryngau cymdeithasol hefyd i rannu'r wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru a chyrff a sefydliadau allweddol eraill, ac ym mis Mawrth sefydlais grŵp Facebook newydd – Mewn Undod Mae Nerth (Together We Are Stronger) – sy'n darparu lle i bobl hŷn, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i gysylltu a sgwrsio, gofyn cwestiynau, postio gwybodaeth a chael gwybod am yr help a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Ymgysylltu â phobl hŷn

O gofio'r rôl hollbwysig y mae ymgysylltu â phobl hŷn yn ei chwarae o ran helpu i lywio a siapio fy ngwaith a'm blaenoriaethau, rydw i wedi trefnu sesiynau ymgysylltu ar-lein drwy gydol y pandemig. Mae'r rhain yn gyfle i glywed yn uniongyrchol gan bobl hŷn ledled Cymru am eu profiadau a'r newidiadau a'r gwelliannau y byddent yn hoffi eu gweld, er mwyn sicrhau bod eu lleisiau nhw'n arwain y camau a'r penderfyniadau a gymerir gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn y tymor byr a'r tymor hwy.

Rydw i hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr sefydliadau cenedlaethol allweddol pobl hŷn yng Nghymru i glywed ganddynt am brofiadau eu haelodau, ac unrhyw faterion a heriau maent wedi'u hwynebu, ac i ddarparu gwybodaeth a diweddariadau y gellir eu rhaeadru i bobl hŷn, yn enwedig pobl hŷn nad ydynt ar-lein.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y sesiynau ymgysylltu hyn wedi helpu i lunio fy adroddiad 'Lleisiau Cartrefi Gofal' a fy adroddiad 'Gadael Neb Ar Ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn', ynghyd â chefnogi craffu pellach a gwaith i ddylanwadu ar bolisïau ac arferion, yn genedlaethol ac yn lleol.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill

Rydw i wedi gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill trwy gydol y pandemig, ond dydw i heb oedi rhag eu dwyn i gyfrif pan roeddwn i'n teimlo nad oedd eu gweithredoedd yn ddigonol i ddiogelu a chefnogi pobl hŷn, gan godi pryderon yn gyhoeddus pan oedd angen i sicrhau newid a gweithredu.

Rydw i wedi bod yn cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol yn wythnosol i godi pryderon pobl hŷn; i dynnu sylw at fannau ble mae hawliau pobl hŷn o dan fygythiad; i gynnig, a gweithredu ar feysydd gweithredu; ac i weithio i sicrhau bod yr wybodaeth a'r cyfarwyddiadau diweddaraf yn cael eu cyflwyno'n effeithiol i bobl hŷn.

Rydw i wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sydd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol, o sicrhau bod gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel leol yn diwallu anghenion pobl hŷn ac nad yw'n eu rhwystro rhag ymgysylltu â'u cymunedau.

Law yn llaw â hyn, dydd fy nhîm a mi yn monitro ac yn craffu ar waith byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill, gan weld a fydd y cynlluniau sydd ganddyn nhw ar waith a'r camau fydd yn cael eu cymryd yn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Gwaith Achosion

Mae fy mhwerau o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn caniatáu i mi ddarparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn, a ddarperir drwy ei thîm gwaith achos pwrpasol.

Mae'r tîm gwaith achos yn darparu gwybodaeth, cymorth ac arweiniad i rymuso pobl hŷn a'u teuluoedd a'u helpu i ddeall eu hawliau a'u hawlio. Mae'r tîm yn darparu cymorth fel bod modd i bobl hŷn a'u teuluoedd herio penderfyniadau ac arferion

gwasanaethau a chyrff cyhoeddus, yn ogystal â gweithio eu ffordd drwy systemau, polisïau a phrosesau, sy'n aml yn rhai cymhleth, a hynny yn yr amgylchiadau mwyaf anodd a gofidus yn aml. Mewn rhai achosion, mae'r tîm gwaith achos yn ymyrryd ar ran person hŷn (yn amodol ar ei ganiatâd). Er bod pobl hŷn a'u teuluoedd yn cysylltu â'm swyddfa ynghylch ystod eang o faterion, yn hanesyddol mae'r materion mwyaf cyffredin yn ymwneud â gwasanaethau iechyd, tai, gofal a diogelu, a cham-drin.

Yn ystod 2020-21, mae cynnydd wedi bod yn nifer yr ymholiadau i fy Nhîm Gwaith Achos o gymharu â'r un cyfnod yn 2019-20 ac rydw i wedi darparu cymorth a chefnogaeth i bobl hŷn a'u teuluoedd ar amrywiaeth o bynciau'n ymwneud â Covid-19. Tra bod fy swyddfa wedi bod ar gau, rydw i wedi sicrhau nad yw pobl hŷn sy'n cysylltu â'r swyddfa mewn llythyr neu dros y ffôn yn dioddef unrhyw anawsterau o ran y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Blaen-gynllun

Yn sgil effaith sylweddol y pandemig ar lawer o agweddau ar gymdeithas, rydw i wedi gorfod ailystyried cynlluniau ar gyfer nifer o ddarnau allweddol o waith a oedd i fod i gael eu cyflawni yn 2020-21.

Er enghraifft, mae fy ymgyrch #EverydayAgeism – a oedd i fod i symud i'r ail gam ym mis Ebrill 2020 – yn cael ei hailystyried, yn sgil yr enghreifftiau o ragfarn a gwahaniaethu ar sail oedran a welwyd yn ystod y pandemig.

Yn yr un modd, mae fy ngwaith i ystyried trafnidiaeth i wasanaethau iechyd yng Nghymru yn cael ei adolygu oherwydd y newidiadau sylweddol a welir i'r ffordd mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau trafnidiaeth yn cael eu darparu, a beth allai hyn ei olygu i bobl hŷn yn y tymor byr a'r tymor hirach.

Ym mis Awst, cyhoeddais 'Gadael Neb ar Ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hyn', sy'n nodi'r camau sydd angen eu cymryd ar draws nifer o feysydd allweddol i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw, nad ydyn nhw'n cael eu heithrio o gymdeithas a'u bod nhw'n gallu parhau i wneud cyfraniad sylweddol i'n cymunedau a'r economi. Byddaf yn canolbwyntio ar y camau gweithredu allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun adfer hwn dros y 6 mis nesaf.

Bydd fy nghynllun busnes ar gyfer 2021-22 yn cael ei lunio gan yr amgylchiadau rydyn ni'n canfod ein hunain ynddynt dros y gaeaf a dechrau'r flwyddyn newydd. Yn sail i'r cynlluniau hyn bydd ymgysylltiad eang â phobl hŷn a ffocws ar ddiogelu a hyrwyddo eu hawliau, ac yn y tymor hirach craffu cadarn o'r penderfyniadau a'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill er mwyn nodi arferion da, a defnyddio fy mhwerau statudol i ddwyn pobl eraill i gyfrif pan fo hynny'n briodol.

Mae fy nhîm o 19 aelod o staff yn hanfodol ar gyfer darparu fy nghynllun strategol a fy nghynllun busnes. Ond, os oes angen, byddaf yn contractio darparwyr allanol sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd perthnasol i gynnal ymchwil mewn maes penodol neu ddarparu cyngor arbenigol ar feysydd blaenoriaeth strategol.

Mae gallu fy nhîm a minnau i ddarparu newid effeithiol a hanfodol i bobl hŷn yn seiliedig ar allu fy swyddfa i barhau i reoli fy nghronfeydd fy hun yn annibynnol gan fod

y rhain yn sail i fy nghynllun ariannol ar gyfer y tymor canolig a derbyn o leiaf £1,589,000 o gyllid refeniw gan Weinidogion Cymru.

Dolen i'r wefan: Gadael neb ar ôl – Cam gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn

Atodiad A

Amcangyfrif Blynyddol 2021-124

Byddaf yn ymdrechu i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau presennol a darparu gwerth am arian.

Er mwyn rhoi eglurder i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cyllidebau adnoddau ac arian, maen nhw wedi cael eu rhan yn y tablau isod.

Sail adnoddau

Disgrifiad	**Amcangyfrif 2021-22 (£)**	**Amcangyfrif 2022-23* (£)**	**Amcangyfrif 2023-24* (£)**
Incwm:			
Incwm gan Lywodraeth Cymru	**1,589,000**	**1,589,000**	**1,589,000**
Gwariant:			
Costau cyflogi	1,214,358	1,210,397	1,205,048
Treuliau llety**	151,708	154,720	155,910
Offer TGCh a chynnal a chadw	65,381	64,164	64,750
Gwasanaethau a ffioedd proffesiynol	60,802	61,786	62,800
Costau rhedeg eraill	46,642	55,905	47,130
Rhaglen	100,000	100,000	100,000
Cyfanswm Gwariant ar Adnoddau	**1,638,892**	**1,646,972**	**1,635,637**

*Ffigurau dangosol yn unig

** Yn cynnwys amcangyfrif o'r addasiad sydd ei angen ar gyfer gweithredu IFRS16 – lesoedd

Sail arian

Disgrifiad	**Amcangyfrif 2021-22 (£)**	**Amcangyfrif 2022-23* (£)**	**Amcangyfrif 2023-24* (£)**
Incwm:			
Incwm gan Lywodraeth Cymru	1,589,000	1,589,000	1,589,000
Gwariant:			
Costau cyflogi	1,214,358	1,210,397	1,205,048
Treuliau llety	151,708	154,720	155,910
Offer TGCh a chynnal a chadw	65,381	64,164	64,750
Gwasanaethau a ffioedd proffesiynol	60,802	61,786	62,800
Costau rhedeg eraill	35,319	45,165	36,692
Rhaglen	100,000	100,000	100,000
Gwariant Cyfalaf	17,500	13,780	0
Cyfanswm Gwariant Arian	1,625,068	1,630,012	1,625,200
Arian (llif allan)/llif i mewn	(36,068)	(41,012)	(36,200)

*Ffigurau dangosol yn unig

** Mae les llety'r Comisiynydd yn dod i ben ym mis Awst 2023, nid yw'r ffigyrau cyfalaf yn cynnwys unrhyw gostau cysylltiedig.

Nodiadau:

Covid-19

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cyfrannu at arbedion sylweddol yn fy swyddfa o gymharu â fy amcangyfrifon ar gyfer 202-21 Mae'r rhesymau dros yr arbedion hyn yn ddyblyg. Y prif reswm am hyn yw bod llawer o'r gwaith oedd wedi'i drefnu ar gyfer 2020-21 wedi cael ei ohirio fel bod modd i mi ganolbwyntio ar ddiogelu hawliau pobl hyn a sicrhau eu bod nhw'n gallu cael mynediad at gymorth a chefnogaeth hanfodol. Yr ail reswm yw'r arbedion bach a gafwyd wrth i fy staff barhau i weithio o gartref yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Oni nodir yn wahanol, mae'r cyllidebau yn fy amcangyfrif ar gyfer 2021-22 a'r cynllun ariannol ar gyfer y tymor canolig yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd fy ngwariant ar y ddwy raglen a chostau rhedeg cyffredinol yn dychwelyd i'r lefelau roeddent arnynt cyn y pandemig.

Chwyddiant

Roedd cyfradd chwyddiant 12 mis y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 0.2% ym mis Awst 202, i lawr o 1.0% ym mis Gorffennaf 2020. Byddaf yn monitro effaith unrhyw amrywiadau chwyddiannol mewn prisiau yn y dyfodol gan amsugno unrhyw bwysau ychwanegol ar gostau a fydd yn codi.

Costau cyflogi

Costau staff yw'r gyfran fwyaf o fy ngwariant. Mae gallu cadw a recriwtio staff o safon i gyflawni fy swyddogaethau statudol a fy nghynllun strategol yn hollbwysig.

Ar hyn o bryd, rydw i'n cyflogi 19 aelod o staff, gan gynnwys 4 gweithiwr cyfnod penodol gyda 3 chontract yn dod i ben yn 2020-21.

Rhoddais daliad costau byw o 2% i fy staff yn 2020-21, ond doedd dim modd i mi roi taliad costau byw o 2.5% yn unol â Llywodraeth Cymru. I ddibenion cyllidebu yn unig, gwnaed tybiaeth i ganiatáu codiad cyflog blynyddol o 1% o fewn costau cyflogi o 2021-22 ymlaen.

Oherwydd y cyfyngiadau ar symudiad a'r gofynion cadw pellter cymdeithasol yn 2020-21 cafwyd arbedion sylweddol ar y costau teithio a chynhaliaeth. Rydw i'n rhagweld y bydd cyfyngiadau tebyg ar waith ar gyfer peth o 2021-22, felly mae fy nghyllideb Teithio a Chynhaliaeth ar gyfer 2021-22 wedi cael ei osod ar 50% o fy nghyllideb ar gyfer 2019-20.

Mae costau cyflog yn cynnwys pob gwariant ar gyflogau ac argostau, gan gynnwys costau cyflog aelodau fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, hyfforddiant staff, costau teithio, archwiliadau'r gwasanaeth datgelu a chostau recriwtio.

Treuliau llety

Mae costau llety a swyddfa'n cynnwys gwariant ar rent, tâl gwasanaeth, trethi, diogelwch, cyfleustodau ac yswiriant.

Oherwydd gostyngiad mewn cyllid yn 2016-17, fe wnaeth y Comisiynydd blaenorol leihau gwariant drwy gynnal adolygiad manwl o strwythur a model gweithredu'r sefydliad; un o brif effeithiau'r adolygiad hwn oedd gostyngiad yn nifer y staff o WTE o 28.26 o weithwyr yn 2015-16 i 19.40 yn 2016-17, mae fy lefelau staffio WTE i wedi bod yn 20.67 ar gyfartaledd ers 2017. Mae'r cwtogiad hwn yn nifer y staff yn naturiol wedi arwain at ostyngiad yn faint o ofod swyddfa sydd ei angen.

Yn nechrau 2020, mi wnes i adolygu fy narpariaeth swyddfa presennol a'r gofynion swyddfa yn y dyfodol a dod i'r canlyniad y dylwn i gael gwared ar 25% o fy ôl troed llety presennol ac ymrwymo i les hirach er mwyn sicrhau arbedion sylweddol o ran costau. Ond, mae Covid-19 wedi gorfodi newid mewn arferion gweithio gan fod pob aelod o staff bellach yn gweithio gartref. Mae'r newid gorfodol wedi gwneud i ni adolygu ac ailystyried y cynnig gwreiddiol. Mae fy Nhîm Rheoli a mi, ynghyd â fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, wedi penderfynu na fyddai o ddiddordeb i'r sefydliad i ymrwymo i les swyddfa hir dymor neu derfynu'r les yn llwyr heb fod â sylfaen dystiolaeth ddigonol o ran arferion gweithio i wneud y penderfyniad. Felly, fy mwriad yw aros yn Adeiladau Cambrian nes bod y les yn dod i ben ym mis Awst 2013. Byddaf yn adolygu fy ngofynion llety ar gyfer y dyfodol yn 2022, neu cyn hynny os bydd unrhyw eglurder wedi deillio o'r newid yn niwylliant gweithio'r swyddfa yn sgil yn pandemig Covid-19.

Offer TGCh a chynnal a chadw

Mae gen i gynllun TGCh i'r tymor canolig fydd yn cynnal y systemau presennol i'r dyfodol ar sail newid a chynnal brys a hanfodol ac sy'n seiliedig ar anghenion busnes hanfodol a chynyddu gofynion TGCh a diogelu data. Nid ydw i'n cael dyraniad cyfalaf ar wahân a chaiff hyn ei ariannu o'r prif ddyraniad arian parod.

Rydw i'n parhau i fuddsoddi mewn uwchraddio'r seilwaith TGCh, i sicrhau bod y system yn aros yn effeithlon ac yn wydn rhag bygythiadau allanol. Pan fo'n briodol, bydd y costau hyn yn cael eu dibrisio neu eu hamorteiddio dros gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r costau refeniw yn cynnwys y gost o adnewyddu gwarantau a thrwyddedau meddalwedd a chaledwedd, cost y Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer cynnal a chadw TGCh, Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Band Eang PSBA a Chytundeb Lefel Gwasanaeth ar wahân ar gyfer y gronfa ddata rheoli cofnodion.

Mae fy systemau TGCh wedi cael eu dilysu'n annibynnol yn 2019-20, ac rwyf wedi cael fy sicrhau bod y systemau'n cydymffurfio â'r cynllun Cyber Essentials Plus Scheme, sy'n gynllun ardystio seiberddiogelwch sy'n nodi gwaelodlin dda ar gyfer seiberddiogelwch. Mae'r cynllun yn rhoi sylw i bum rheolaeth sy'n gallu atal tua 80% o ymosodiadau seiber, os ydynt yn cael eu rhoi ar waith yn gywir.

Roedd fy muddsoddiad parhaus mewn technoleg yn hollbwysig o ran parhad y busnes yn ystod y pandemig Covid-19, oherwydd fe wnaeth hyn alluogi staff i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol o'u cartrefi.

Gwasanaethau a ffioedd proffesiynol

O ystyried maint bach y sefydliad, mae'r pennawd hwn yn cynnwys gwariant ar weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth a sgiliau arbenigol nad wyf yn eu cadw'n fewnol.

Yn hanesyddol, mae gwariant ffioedd proffesiynol, yn enwedig costau cyfreithiol, wedi amrywio. Fel sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd blaenorol, mae hyn oherwydd y bydd angen i mi weithredu ar unrhyw faterion pwysig, brys ac annisgwyl sy'n dod i'm sylw. Ond, mae'r maes cyllideb hwn yn cynnwys llinellau gwariant mwy sefydlog fel ffioedd archwilio, costau cyfieithu a monitro gwleidyddiaeth a chyfryngau. Rydw i'n rhagweld cyllideb sefydlog dros y tymor canolig gydag unrhyw orwariant yn cael ei ariannu gan arbedion mewn rhannau eraill o'r gyllideb.

Costau rhedeg eraill

Mae costau rhedeg eraill yn cynnwys defnyddiau traul swyddfa fel argraffu, ffonau, deunyddiau swyddfa a phostio ynghyd â chostau dibrisiant ag amorteiddio. Rydw i wedi mabwysiadu dull gweithredu darbodus ar gyfer caffael deunyddiau traul i'r swyddfa a bydd yn parhau i chwilio am arbedion yn y maes hwn. Rydw i'n manteisio i'r eithaf ar ddefnyddio contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol lle mae hynny'n ymarferol.

Rhaglenni

Bydd gwariant ychwanegol ar sail achlysurol i gasglu tystiolaeth, gwneud ymchwil a chyhoeddi a hyrwyddo canfyddiadau a chyfarwyddyd. Mae hwn yn cael ei ddyrannu ar sail ddewisol ac mae'n cael ei ddefnyddio i gyflawni fy nyletswyddau statudol ac i helpu i ddarparu fy Nghynllun Strategol.

Newid mewn polisi cyfrifo 2020-21

Ym mis Ionawr 2016, cyhoeddwyd IFRS 16 – Prydlesi, ac mae mewn grym ar gyfer cyfnodau blynyddol yn dechrau ar 1 Ionawr 2021 neu ar ôl hynny. Mae gen i un les weithredol ar gyfer llety sydd wedi cael ei heffeithio gan y safon hwn. Mae effaith cyflwyno'r safon cyfrifo hwn ar symudiadau trwy'r amcangyfrif wedi bod yn fach, gydag ail-ddosbarthiad gwariant o rent mewn cronfeydd llety i ddibrisiant ar ased hawl-i-ddefnyddio a chostau llog isel. O fis Ebrill 2021, byddaf yn sefydlu ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar fy Natganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae cyfradd nominal y trysorlys ar gyfer lesoedd o 1.27% a gyhoeddwyd yn PES 2019 (11) wedi cael ei ddefnyddio fel y gyfradd dreth annatod fel yn y cyfrifiadau. Ar gyfer yr ymarfer hwn rydw i wedi cymryd y byddaf yn parhau i fod yn denant yn Adeiladau Cambrian nes diwedd y les yn 2023.

Atodiad B

Cronfeydd

Mae'r Comisiynydd yn cael ei hariannu gan, ond mae'n gweithredu'n annibynnol o, Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru ac fel Swyddog Cyfrifyddu rydw i'n atebol i Senedd Cymru am y defnydd cywir a darbodus o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei roi i mi.

Roedd £300,000 yn y cronfeydd wrth gefn statudol ar ddiwedd y flwyddyn 2019-20. Mae gallu cynnal a rheoli fy nghronfeydd wrth gefn yn allweddol er mwyn sicrhau fy annibyniaeth.

Mae gan gronfeydd wrth gefn rôl bwysig i'w chwarae o fewn fy ymagwedd rheoli ariannol cyffredinol ac maent yn rhan annatod o gyflawni fy nyletswyddau statudol a darparu fy Nghynllun Strategol ar gyfer 2019-22 'Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo. Maent hefyd yn fy ngalluogi i reoli risg yn effeithiol a pharhau i gyflawni fy nyletswyddau statudol yn wyneb problemau na ragwelwyd, neu nad oedd modd eu rhagweld, boed y rheini'n broblemau ariannol neu'n broblemau cysylltiedig â gwasanaeth.

Rwyf wedi nodi pedwar rheswm penodol pam mae angen cadw cronfeydd wrth gefn:

- Ymateb i unrhyw faterion brys a phwysig nad oedd modd eu rhagweld ac sy'n effeithio ar fywydau pobl hŷn, a allai gynnwys cynnal Adolygiad yn defnyddio fy Mhwerau Cyfreithiol. Mae'n anodd iawn cyfrifo costau ychwanegol o'r fath ond mae'n debyg y byddai'n gysylltiedig ag achosion cyfreithiol ac adnoddau staff ychwanegol. (Cronfa wedi'i chlustnodi)
- Cynllunio ariannol strategol – gan ganiatáu i mi gronni cyllid ar gyfer gwariant sylweddol wedi'i gynllunio yn y tymor hwy, yn ogystal â gallu rheoli llifau gwaith cydredol yn strategol lle gallai'r gwariant cysylltiedig fod yn fwy na fy mhrif ddyraniad gan Lywodraeth Cymru.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol a busnes cyffredinol y sefydliad (y Gronfa Gyffredinol), yn enwedig yr angen i allu ymateb i gostau gweithredu nad oedd modd eu rhagweld ee absenoldebau staff yn y tymor hirach.
- Er mwyn lliniaru risgiau penodol yn y Gofrestr Risg Strategol a darparu sicrwydd ariannol yn erbyn y risgiau hynny. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn fy nghynllun ariannol tymor-canolig gan fod y rhain yn sicr, neu'n debygol iawn, o godi eu pennau.

Rydw i wedi clustnodi fy nghronfeydd i wahaniaethu rhwng y gronfa gyffredinol a chronfa 'Adolygiad brys annisgwyl' sydd wedi'i chlustnodi. Mae'r gronfa 'Adolygiad brys' yn bodoli i allu lliniaru peth o'r risg ariannol fyddai'n codi o gynnal archwiliad brys annisgwyl, gan gynnwys Archwiliad Adran 10. Er mwyn cynnal archwiliad o'r math hwn byddai angen adnoddau ychwanegol a chynrychiolaeth gyfreithiol arnaf. Felly, i fod yn ddarbodus, mae £70,000 wedi cael ei glustnodi. Bydd y balans yn cael ei adolygu'n flynyddol gan fy Nhîm Rheoli Busnes a fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i sicrhau ei fod yn parhau'n briodol.

Mae'r strategaeth cronfa wrth gefn gyffredinol wedi cael ei gosod ar 5% o'r incwm, sydd ar hyn o bryd yn gyfystyr â £80,000. Byddai'r gronfa hon yn cael ei defnyddio ar gyfer tri phwrpas; sicrhau sefydlogrwydd ariannol a busnes; cefnogi cynllunio ariannol strategol; a lliniaru unrhyw risgiau penodol a nodwyd yn y Gofrestr Risg Strategol.

Bydd faint o gronfeydd wrth gefn y byddaf yn eu dal yn amrywio, yn dibynnu ar y cynllun busnes a gyhoeddir gennyf, ac amryw o faterion gweithredol, er enghraifft pa bryd mae prydlesi yn dod i ben ac absenoldebau hir dymor annisgwyl gan staff. Er hynny, yn y tymor canolig, nid oes disgwyl i lefel y cronfeydd wrth gefn amrywio llawer y tu hwnt i £150,000. Mae lefel arfaethedig y cronfeydd wrth gefn yn cael ei chynnwys yn ffurfiol ym mhob cynllun ariannol tymor-canolig blynyddol, sy'n cael ei rannu bob chwarter gyda fy Mhwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a fy archwilwyr Mewnol ac Allanol.

Fel rhan o fy null cyffredinol o reoli arian, rwyf yn cynnal cynllun ariannol tair blynedd treigl sy'n cyd-fynd â fy Nghynllun Strategol ac yn eu hategu. Roedd rhoi'r cynllun hwn ar waith yn adlewyrchu'r ffaith fy mod yn cyflawni fy nyletswyddau statudol.

Mae'r tabl isod wedi'i ddyfynnu o'r Amcanestyniad, ac mae'n darparu amcangyfrif o wariant refeniw disgwyliedig dros y tair blynedd nesaf.

	2020-21 (£)	**2021-22 (£)**	**2022-23 (£)**	**2023-24 (£)**
Balans agoriadol y cronfeydd wrth gefn	299,819	299,819	249,927	191,955
Symudiad	0	(49,892)	(57,972)	(46,637)
Balans terfynol y cronfeydd wrth gefn	**299,819**	**249,927**	**191,955**	**145,318**

O ystyried yr ansicrwydd mae'r balansau a ragfynegir yn seiliedig ar dybiaethau o ran chwyddiant strwythur sefydliadol, a pharhad cyllideb wastad. Mae balans y cronfeydd wrth gefn hefyd yn cynrychioli cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn ogystal â chronfeydd wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer costau a ragwelir.